**Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod Bwrdd S4C**
**8fed Gorffennaf 2022 – Yr Egin, 13.00**

**Cyfarfod Rhif 458**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) – rhithiol |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Denise Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) – rhithiol |
| **Aelodau Gweithredol:** | Siân Doyle | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| **Staff S4C oedd yn bresennol:** | Geraint Pugh | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitemau 1 i 4; ac eitemau 9 i 11 |
| | Geraint Evans | (Cyfarwyddwr Cyhoeddi a Chynnwys) |
| | Rhidian Dafydd | (Cyfarwyddwr Prosiectau) eitem 4 |
| | Bethan C Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Ymddiheuriadau:** | Llinos Griffin Williams | (Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol) |

| | |
|---|---|
| **Croeso a Datganiadau Diddordeb**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C, ac yn arbennig Geraint Evans a fyddai'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd o hyn allan fel arsylwr.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb penodol ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan hynny. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd, ac fe atgoffodd y Cadeirydd bawb o'r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant. | |
| **Adroddiad y Cadeirydd**<br><br>Adroddodd RhW nad oedd wedi derbyn unrhyw ddiweddariad gan y DCMS ynghylch y broses i benodi aelodau anweithredol newydd i'r Bwrdd. | |
| **Archwaeth Risg**<br><br>Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, roedd y Tîm Rheoli wedi bod yn paratoi gwahanol sefyllfaoedd enghreifftiol i'w trafod er mwyn cynorthwyo'r Bwrdd i gytuno ar archwaethau risg addas ar gyfer y gwahanol barthau. Roedd yr enghreifftiau hyn wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.<br><br>Esboniodd SD mai ei gobaith oedd cael cytundeb y Bwrdd ynghylch archwaeth risg presennol S4C, a sut ddylai'r archwaeth newid i'r dyfodol. Byddai yna modd i'r Tîm Rheoli weithredu oddi fewn i'r fframwaith hwnnw.<br>Trafodwyd y sefyllfaoedd enghreifftiol, ynghyd â'r gwahanol lefelau o archwaeth risg a amlinellwyd yn yr adroddiad ar gyfer y parthau. Ystyriwyd yn benodol a ddylid cael parth yn benodol ar risgiau / canfyddiadau cyhoeddus, ond cytunwyd bod y parth 'Enw Da' eisoes yn cwmpasu'r elfennau hyn.<br><br>Roedd GB yn awyddus i S4C ystyried ymhellach pwy yw ein cynulleidfaoedd craidd a tharged. Wrth geisio apelio at aelwydydd iaith cymysg, roedd hefyd yn bwysig cofio bod yna gartrefi cwbl Cymraeg sydd ddim yn gwylio S4C a bod angen estyn allan atynt hefyd.<br><br>Er bod aelodau'r Bwrdd yn cydnabod y byddai cymryd rhai risgiau yn arwain at golledion ariannol ar adegau, pwysleisiwyd yr angen i gymryd camau sylweddol bob amser i ddiogelu enw da S4C, gan gynnwys lleihau unrhyw risgiau ariannol cymaint â phosib. | |

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad:**<br>**I gymeradwyo'r matrics archwaeth risg arfaethedig, yn amodol ar y diwygiadau i'r parthau canlynol:**<br>• **Arloesedd – symud at archwaeth risg 'agored';**<br>• **Cyfreithiol – symud at archwaeth risg 'cymhedrol'; ac**<br>• **Enw Da – symud at archwaeth risg 'agored'.**<br>[ymunodd RhD a'r cyfarfod] | **ShW** |
| **Strategaeth 22: Diweddariad chwarterol ar y dashfwrdd**<br><br>Cyflwynodd RhD y dashfwrdd ar gyfer Chwarter 1, oedd hefyd yn cynnwys y diweddariad ariannol. Byddai'r dogfennau hyn yn cael eu rhannu gyda'r DCMS wedi iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd.<br><br>Roedd fformat y dashfwrdd eisoes wedi ei gytuno gyda'r DCMS. Roedd ShW hefyd wedi diwygio fformat yr adroddiad ariannol chwarterol i'r DCMS er mwyn rhoi gwell trosolwg o sut mae ein gwariant yn cael ei gategoreiddio (gan ddefnyddio'r un categorïau â'r Adroddiad Blynyddol).<br><br>**Penderfyniad:**<br>**Cymeradwywyd y Dashfwrdd a'r Adroddiad Ariannol chwarterol, i'w cyflwyno i'r DCMS ar 13 Gorffennaf 2022.**<br><br>Llongyfarchwyd RhD ar ei benodiad i swydd newydd, fyddai'n golygu y bydd yn gadael cyflogaeth S4C yn yr wythnosau nesaf. Holwyd am gynllun olyniaeth ar gyfer y swydd bwysig hon, a nododd SD ei bod paratoi'r swydd ddisgrifiad er mwyn cychwyn y broses recriwtio mor fuan â phosib.<br><br>[gadawodd RhD a ShW y cyfarfod] | **GP** |
| **Blaenoriaethau mis Hydref**<br><br>Cyflwynodd SD y papur yn absenoldeb LlGW. Roedd yn amlinellu cynlluniau cynnwys yr hydref, gyda ffocws yn amlwg ar Gwpan Pêl Droed y Byd yn Qatar. Byddai dathlu pen-blwydd S4C yn 40 hefyd yn gyfle i edrych am ymlaen, lansio cyfresi a chyflwyno wynebau newydd.<br><br>Croesawyd y cynlluniau i gydweithio gyda Chymdeithas Pêl Droed Cymru, Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid eraill i wneud y mwyaf o bresenoldeb tîm Cymru yng Nghwpan y Byd. | |
| **Cynllun Cyhoeddi**<br><br>Cyflwynodd GE ddiweddariad ar y Cynllun Cyhoeddi. Prif amcan y cynllun yw rhoi 'dy gynnwys di ar dy lwyfan di'. O hyn allan, bydd unrhyw gomisiwn yn cael ei ystyried ar sail y cynnwys yn ogystal â'r gynulleidfa darged a'r platfform gorau ar gyfer cyrraedd y gynulleidfa honno.<br><br>Wrth ystyried y ffurflenni comisiynu newydd, holodd CJ pam nad oedd unrhyw gyfeiriad at y personas newydd. Cadarnhaodd SD fod trafodaeth am y personas yn digwydd yng nghyfarfod nesaf y sector, ac y byddai'r ffurflen yn cael ei diwygio unwaith ag y byddai'r personas wedi eu rhannu gyda'r sector.<br><br>Awgrymodd CJ efallai y dylai bod proses i ddiffinio sut ydyn ni am apelio at bersonas penodol. Yn benodol, efallai byddai cyfradd y farchnad yn ffordd dda o fesur sut rydym yn cyrraedd y gynulleidfa darged.<br><br>Cytunodd SD y byddai'n fuddiol dechrau mesur yn gyffredinol ar sail cyfradd y farchnad, ac y byddai'n ystyried sut i ymgorffori hyn yn y dashfwrdd perfformiad newydd sy'n cael eu datblygu. | **SD** |
| **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad, gan amlinellu'r cynlluniau a'r cyfarfodydd oedd wedi digwydd dros y cyfnod.<br><br>Roedd y gwaith i ddatblygu dashfwrdd newydd i fonitro perfformiad ein cynnwys parhau. Y bwriad yw cyflwyno copi o'r Bwrdd ym mis Medi i'w gymeradwyo.<br><br>Arwyddwyd MoU efo Llywodraeth Korea, lle bydd modd cydweithio efo nhw ar raglenni am stadiwms ar draws y byd. Roedd trafodaethau ynghylch MoU gyda Llywodraeth Cymru o ran Strategaeth 2050 yn parhau.<br><br>Amlinellodd EM y datblygiadau mewn perthynas â'r Mesur Cyfryngau. Cafwyd galwad gadarnhaol gyda'r Gweinidog ar y pryd, Julia Lopez, a darlledwyr eraill i drafod gwahanol agweddau o'r Mesur arfaethedig. | |

| | |
|---|---|
| Adroddwyd bod y cwmni Wildseed – y mae gan Grŵp Masnachol S4C gyfranddaliadau ynddo – wedi derbyn cais i'w brynu. Roedd aelodau Bwrdd y Grŵp Masnachol wedi cytuno mewn egwyddor i werthu eu cyfranddaliadau.<br><br>**Penderfyniad:**<br>**Cymeradwywyd y cynnig i werthu cyfranddaliadau'r Grŵp Masnachol yng nghwmni Wildseed.** | **EM** |
| [ymunodd ShW a CW a'r cyfarfod] | |
| **Setliad Cyflog**<br><br>Cyflwynodd CW adroddiad am y setliad cyflog arfaethedig ar gyfer eleni. Roedd fersiwn blaenorol wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Pobl a Thaliadau ar 23 Mehefin 2022. Roedd y setliad arfaethedig wedi ei ddiwygio ychydig ers hynny, yn dilyn trafodaethau gyda'r undeb BECTU, ac roedd aelodau'r Pwyllgor yn gyfforddus gyda'r hyn oedd nawr yn cael ei gynnig.<br><br>**Penderfyniad:**<br>**Cymeradwywyd y Setliad Cyflog fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad.**<br><br>[gadawodd CW y cyfarfod] | **CW** |
| **Adroddiad Ariannol**<br><br>Cyflwynodd ShW yr adroddiad blynyddol ar gyfer Chwarter 1. Nodwyd y cynnwys. | |
| **Adroddiadau Diwedd Blwyddyn**<br><br>Roedd y NAO wedi cyflwyno canlyniad yr archwiliad allanol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg y bore hwnnw. Gan fod nifer o'r adroddiadau diwedd blwyddyn hefyd i'w hystyried yn ystod cyfarfod y Pwyllgor hwnnw, estynnwyd croeso i holl aelodau'r Bwrdd Unedol fynychu, er mwyn osgoi dyblygu trafodaethau mewn manylder.<br><br>Adroddodd CJ fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r aelodau anweithredol gwrdd ar wahân gyda'r archwilwyr allanol a mewnol ac nad oedd unrhyw bryderon wedi eu codi. Cadarnhaodd bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn gwbl hyderus wrth argymell bod y bwrdd yn cymeradwyo'r dogfennau i gyd yn ffurfiol.<br><br>**Penderfyniad:**<br>**I dderbyn adroddiad blynyddol yr NAO, a chymeradwyo'r llythyr cynrychiolaeth iddynt.**<br>**I dderbyn adroddiad blynyddol TIAA.**<br>**I gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021–22, er mwyn eu cyflwyno'n ffurfiol yn San Steffan (a rhannu copi yn ffurfiol gyda'r BBC yn lle'r adroddiad sicrwydd ariannol ar gyfer diwedd y flwyddyn adrodd).**<br>**Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern, i'w gyhoeddi ar wefan S4C, ynghyd â'r Polisi cysylltiedig.** | **ShW**<br><br>**GP**<br><br>**IM** |
| **Diweddariad Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br><br>Cyflwynwyd diweddariad ysgrifenedig gan y Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant. Nodwyd yr adroddiad. | |
| **Cyfathrebu mewn argyfwng**<br><br>Yn dilyn cais blaenorol gan y Bwrdd, cyflwynwyd papur oedd yn amlinellu trefniadau cyfathrebu S4C mewn argyfwng. Croesawyd yr adroddiad, ac fe nodwyd mai GP oedd yn gyfrifol am hysbysu aelodau'r Bwrdd o unrhyw ddigwyddiadau. | |
| **Cofnodion Cyfarfod Mai**<br>Cymeradwywyd y cofnodion o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar y 26ain o Fai.<br><br>**Cofnodion Pwyllgor Pobol a Thaliadau**<br>Nodwyd y cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Pobol a Thaliadau a gynhaliwyd ar y 23ain o Fehefin. | |
| **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**<br>Cyflwynwyd diweddariad o'r Pwyntiau Gweithredu i'r Bwrdd er gwybodaeth. | |

| | |
|---|---|
| **Unrhyw fater arall**<br>Cafwyd peth drafferth efo system sain y stafell Fwrdd heddiw, felly am geisio trefnu stafell arall i'r dyfodol yn y gobaith y bydd y system yn well o ran cyfarfodydd rhithiol.<br><br>Cwrdd i Ffwrdd<br>Gofynnwyd am awgrymiadau ar gyfer pynciau i'w trafod yn ystod y Cwrdd i Ffwrdd nesaf, sydd i'w drefnu ym mis Medi. Un awgrym oedd dyfodol y ffi drwydded.<br><br>Panel ar Ddatganoli Darlledu<br>Nodwyd fod LLC wedi cyhoeddi aelodaeth y panel annibynnol ar ddarlledu.<br><br>Trafodwyd sut y byddai'n briodol i S4C gyfrannu at drafodaethau'r Panel, ac fe gytunwyd y byddai'n fuddiol trafod y mater ymhellach yn ystod y Cwrdd i Ffwrdd. | <br><br><br><br>**GP**<br><br><br><br><br><br>**GP** |